

Agenda – Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

Y Siambr – Y Senedd

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 13 Tachwedd 2019

Amser y cyfarfod: 13.30

241(v4)

1 Cwestiynau i Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig (45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

[Gweld y Cwestiynau](#)

2 Cwestiynau i'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol (45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

[Gweld y Cwestiynau](#)

3 Cwestiynau Amserol (0 munud)

Ni dderbynniwyd unrhyw Gwestiynau Amserol

4 Datganiadau 90 Eiliad (5 munud)

5 Cynnig i Benodi Comisiynydd Safonau Dros Dro (5 munud)

NDM7192 [Jayne Bryant \(Newport West\)](#)



Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi bod swydd Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn wag.

2. Yn penodi Douglas Bain CBE TD fel Comisiynydd dros dro, yn unol ag Adran 4(1) o Fesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009, ar y telerau a ganlyn:

a) bydd y penodiad yn dod i rym ar unwaith;

b) bydd y penodiad yn dod i ben ar unwaith pan roddir hysbysiad i'r Comisiynydd dros dro gan Glerc y Cynulliad;

c) bydd taliad y Comisiynydd dros dro yn gyfradd ddyddiol o £392 (neu pro-rata am ran o ddiwrnod) ar gyfer gweithgareddau sy'n ymwneud yn uniongyrchol â rôl a chyfrifoldebau'r swydd ynghyd â threuliau rhesymol;

d) bydd pob swm y cyfeirir ato ym mharagraff 2(c) i'w dalu i'r Comisiynydd dros dro gan Gomisiwn y Cynulliad.

[Mesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009](#)

6 Cynnig i ddiwygio Rheolau Sefydlog – Cynigion i gyflwyno Rheol Sefydlog 18A newydd ar gyfer goruchwyllo Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

(5 munud)

NDM7184 [Elin Jones \(Ceredigion\)](#)

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â Rheol Sefydlog 33.2:

1. Yn ystyried Adroddiad y Pwyllgor Busnes 'Cynigion i gyflwyno Rheol Sefydlog 18A newydd ar gyfer goruchwyllo Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru' a [osodwyd](#) yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Tachwedd 2019.

2. Yn cymeradwyo'r cynnig i gyflwyno Rheol Sefydlog 18A newydd, fel y nodir yn Atodiad B i Adroddiad y Pwyllgor Busnes.

7 Cynnig i ddiwygio Rheolau Sefydlog – Rheol Sefydlog 12.63 – Cwestiynau Llafar y Cynulliad

(5 munud)

NDM7185 [Elin Jones \(Ceredigion\)](#)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 33.2:

1. Yn ystyried Adroddiad y Pwyllgor Busnes ‘Diwygio’r Rheolau Sefydlog: Rheol Sefydlog 12.63 – Cwestiynau Llafar y Cynulliad’ a [osodwyd](#) yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Tachwedd 2019.

2. Yn cymeradwyo’r cynnig i adolygu Rheol Sefydlog 12.63, fel y nodir yn Atodiad B i Adroddiad y Pwyllgor Busnes.

8 Cynnig i newid cylch gwaith y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

(5 munud)

NDM7186 [Elin Jones \(Ceredigion\)](#)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 16.3, yn cytuno i newid cylch gwaith y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, fel bod ei gylch gwaith fel a ganlyn:

a) archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif drwy graffu ar faterion gwariant, gweinyddu a pholisi sy'n cwmpasu (ond heb fod yn gyfyngedig i): llywodraeth leol; tai, adfywio cymunedol, cydlyniant a diogelwch; trechu tldi; cyfle cyfartal a hawliau dynol;

b) arfer y swyddogaethau nad ydynt yn rhai cyllidebol a nodir yn Rheol Sefydlog 18A.2 mewn perthynas ag atebolrwydd a llywodraethu Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

9 Cynnig i newid cylch gwaith y Pwyllgor Cyllid

(5 munud)

NDM7187 [Elin Jones \(Ceredigion\)](#)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 16.3, yn cytuno i newid cylch gwaith y Pwyllgor Cyllid, fel bod ei gylch gwaith fel a ganlyn:

- a) cyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol a nodir yn Rheolau Sefydlog 18.10, 18.11, 18A.2 (iv) a (v), 19 ac 20 o Gynulliad Cenedlaethol Cymru;
- b) o dan Reolau Sefydlog 19 ac 20, mae cyfrifoldebau'r pwyllgor yn cynnwys ystyried unrhyw adroddiad neu ddogfen a osodir gerbron y Cynulliad mewn perthynas â'r defnydd o adnoddau, neu wariant o Gronfa Gyfunol Cymru, gan gynnwys ymgymryd â gwaith craffu ar gyllideb cyrff a ariennir yn uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru;
- c) o dan Reolau Sefydlog 18.10 a 18.11, mae cyfrifoldebau'r pwyllgor yn cynnwys goruchwyllo'r gwaith o lywodraethu Swyddfa Archwilio Cymru, fel y nodir yn Neddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013;
- d) o dan Reol Sefydlog 18A.2 (iv) a (v), i arfer swyddogaethau cyllidebol mewn perthynas ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru;
- e) bod y Pwyllgor hefyd yn ystyried unrhyw gynigion ar gyfer datganoli pwerau ariannol i Gymru fel rhan o'i gyfrifoldebau, a'r cynnydd a wnaed wrth wneud hynny;
- f) gall y Pwyllgor hefyd graffu ar ddeddfwriaeth a gyflwynir i'r Cynulliad.

[Deddf Archwilio \(Cymru\) 2013](#)

10 Cynnig i gymeradwyo Cyllideb Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2020–21

(30 munud)

NDM7182 [Suzy Davies \(Gorllewin De Cymru\)](#)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 20.16:

Yn cytuno ar gyllideb Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2020–21, fel y pennir yn Nhabl 1 o “Cyllideb Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer 2020–21”, a [osodwyd](#) gerbron y Cynulliad ar 6 Tachwedd 2019 a'i bod yn cael ei hymgorffori yn y Cynnig Cyllidebol Blyneddol o dan Reol Sefydlog 20.26(ii).

11 Cyfnod pleidleisio

12 Dadl Fer

(30 munud)

NDM7183 [Neil Hamilton \(Canolbarth a Gorllewin Cymru\)](#)

Y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol: Troi canolbarth Cymru yn fferm wynt fwy a'r byd.

13 Dadl Cyfnod 3 y Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru)

(180 munud)

Caiff y gwelliannau eu gwaredu yn y drefn y cafodd yr adrannau a'r atodlenni y maent yn cyfeirio atynt eu rhestru yn y cynnig o dan Reol Sefydlog 26.36 a gytunwyd gan y Cynulliad ar 6 Tachwedd 2019.

Mae'r gwelliannau wedi cael eu grwpio at ddibenion y ddadl a byddant yn cael eu trafod fel a ganlyn:

1. Enw Cynulliad Cenedlaethol Cymru a dynodi ei Aelodau

162, 127, 2, 128, 44, 147, 148, 149A, 149B, 149C, 149D, 149, 45, 150, 46, 151, 47, 152, 153A, 153B, 153C, 153, 48, 154A, 154B, 154C, 154, 49, 50, 51, 52, 155, 156, 53, 54, 81A, 81B, 81, 16, 129, 69A, 20, 55, 157, 56, 158, 57, 159, 21, 130, 22, 23, 131, 24, 26, 132, 59, 60, 58, 73A, 27, 133, 28, 134, 29, 135, 30, 136, 32, 137, 33, 138, 34, 139, 35, 140, 36, 141, 37, 142, 38, 143, 39, 144, 41, 145, 42, 146, 164A, 164B, 64, 161

2. Estyn yr hawl i bersonau 16 a 17 oed bleidleisio, a threfniadau cofrestru etholiadol cysylltiedig

102, 3, 4, 103, 104, 105, 106, 107, 108, 109, 110, 111, 112, 113, 114, 115, 116, 117, 118, 119, 86, 120, 121, 122, 123, 124, 43, 125, 126, 101, 100

3. Adolygu gweithrediad y Ddeddf

160, 6, 40, 164, 165, 163

4. Estyn yr hawl i wladolion tramor bleidleisio, a threfniadau cofrestru etholiadol cysylltiedig

5, 7, 8, 9, 10, 11, 12, 13, 14, 15, 17, 18, 19, 61, 62, 63, 1

5. Gweinyddu etholiadau

66, 67, 68, 69, 70, 71, 72, 87, 82, 97, 83, 84

6. Anghymhwys

88, 25, 89, 90, 91, 92, 98, 99, 73, 31, 74, 75, 76, 93, 94, 65

7. Darpariaethau amrywiol a chyffredinol, gan gynnwys dod i rym

77, 95, 78, 79, 96, 80, 85

Dogfennau Ategol

[Bil Senedd ac Etholiadau \(Cymru\)](#)

[Memorandwm Esboniadol](#)

[Rhestr o Welliannau wedi'u didoli](#)

[Grwpio Gwelliannau](#)

[Llythyr gan y Llywydd Ynghylch y Memorandwm Esboniadol Diwygiedig](#)

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 19 Tachwedd
2019

Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 06/11/2019 i'w hateb ar 13/11/2019

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

Dawn Bowden *Merthyr Tudful a Rhymni*

1 OAQ54666

(e)

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer rheoli'r amgylchedd naturiol ym Merthyr Tudful a Rhymni?

Bethan Sayed *Gorllewin De Cymru*

2 OAQ54646

(e)

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ymdrechion i wella ansawdd aer ym Mhort Talbot?

Alun Davies *Blaenau Gwent*

3 OAQ54680

(e)

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bolisi coedwigaeth Llywodraeth Cymru?

Joyce Watson *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

4 OAQ54669

(e)

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gamau gweithredu a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru yn dilyn y datganiad ysgrifenedig ar fridio cŵn a gyhoeddwyd ar 9 Hydref 2019?

Russell George *Sir Drefaldwyn*

5 OAQ54668

(e)

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r diwydiant ffermio yng nghanolbarth Cymru?

Mick Antoniw *Pontypridd*

6 OAQ54652

(e)

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y camau a gymerwyd o ganlyniad i ddatganiad Llywodraeth Cymru am argyfwng yn yr hinsawdd?

Caroline Jones *Gorllewin De Cymru*

7 OAQ54674

(e)

Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o sut y gall sector bwyd-amaeth Cymru helpu i liniaru newid yn yr hinsawdd?

Hefin David *Caerffili*

8 OAQ54677

(e)

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am bolisi Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella'r broses o reoli tir comin yng Nghymru?

Vikki Howells *Cwm Cynon*

9 OAQ54663

(e)

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ystyriaeth Llywodraeth Cymru ynghylch cyflwyno teledu cylch cyfyng gorfodol ar gyfer lladd-dai yng Nghymru?

Leanne Wood *Rhondda*

10 OAQ54685

(e)

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am bolisi ynni Llywodraeth Cymru?

Angela Burns *Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro*

11 OAQ54676

(e)

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cymorth y mae Llywodraeth Cymru yn ei roi i ffermwyr yng ngorllewin Cymru?

Jack Sargeant *Alun a Glannau Dyfrdwy*

12 OAQ54671

(e)

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y mae Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo lles anifeiliaid yng ngogledd-ddwyrain Cymru?

Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol

Paul Davies *Preseli Sir Benfro*

1 OAQ54659

(e)

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer y sector tai ym Mhreseli Sir Benfro?

Darren Millar *Gorllewin Clwyd*

2 OAQ54650

(e)

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am hawliau datblygu a ganiateir yng Nghymru?

Mark Isherwood *Gogledd Cymru*

3 OAQ54647

(e)

Sut y mae Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo partneriaeth effeithiol rhwng llywodraeth leol a chyrrff iechyd cyhoeddus yng Nghymru?

David Rees *Aberafan*

4 OAQ54673

(e)

Sut y mae Llywodraeth Cymru yn cynorthwyo pobl ifanc sy'n byw mewn gofal i ganfod tai addas sy'n diwallu eu hanghenion i fyw'n annibynnol?

Dawn Bowden *Merthyr Tudful a Rhymni*

5 OAQ54667

(e)

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gefnogaeth Llywodraeth Cymru i undebau credyd yng Nghymru?

Leanne Wood *Rhondda*

6 OAQ54684

(e)

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ymdrechion Llywodraeth Cymru i leihau lefelau digartrefedd?

Mohammad Asghar *Dwyrain De Cymru*

7 OAQ54649

(e)

Pa gamau y bydd y Gweinidog yn eu cymryd i wella gwasanaethau ar gyfer cyn-filwyr y lluoedd arfog yng Nghymru dros y 12 mis nesaf?

Mark Reckless *Dwyrain De Cymru*

8 OAQ54672

(e)

Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o'r effaith y mae perchentyaeth tai gwyliau yn ei chael ar y ddarpariaeth dai yng Nghymru?

Helen Mary Jones *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

9 OAQ54660

(e)

Pa asesiad sydd wedi'i wneud o'r effaith y mae goruchafiaeth ail gartrefi yn ei chael mewn ardaloedd sydd ag anghenion tai yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru, yn enwedig mewn trefi glan môr?

Alun Davies *Blaenau Gwent*

10 OAQ54679

(e)

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bolisi Llywodraeth Cymru ar fynd i'r afael â digartrefedd yng nghymoedd de Cymru?

Nick Ramsay *Mynwy*

11 OAQ54678

(e)

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am bolisiâu Llywodraeth Cymru ar gyfer moderneiddio Llywodraeth Leol?

Bethan Sayed *Gorllewin De Cymru*

12 OAQ54665

(e)

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarparu tai cymdeithasol ar gyfer pobl anabl?